# Ymateb i Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig Cymru Llywodraeth Cymru

**Ionawr 2015**

4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar | 5 Fitzalan Place | Caerdydd | CF24 0ED | Ffôn: 03000 231 011 | Ffacs: 03000 231060

www.citizensadvice.org.uk

## Gair am Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru ac mae ganddi swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae 20 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth i'w cael yng Nghymru, pob un ohonynt yn aelodau o Cyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth ddwy nod:

- darparu'r cyngor y mae ar bobl ei angen ar gyfer y problemau maent yn eu hwynebu
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r cyngor a ddarperir gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, yn gyfrinachol a diduedd, ac mae ar gael i bawb beth bynnag fo'u hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu'u cenedligrwydd.

Gwirfoddolwyr hyfforddedig yw'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau Cyngor ar Bopeth. Mae'r holl staff cynghori, boed yn gyflogedig neu wirfoddol, yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau cynghori a chânt ddiweddariadau rheolaidd ar hyfforddiant pwnc-benodol a mynediad i gefnogaeth arbenigol ar bynciau penodol.

Mae'r Canolfannau Lleol, o dan delerau aelodaeth Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor craidd yn seiliedig ar dystysgrif o safonau ansawdd ar fudd-daliadau lles/credydau treth, dyledion, tai, cynhyrchion a gwasanaethau ariannol, materion defnyddwyr, cyflogaeth, iechyd, mewnfudo a lloches, materion cyfreithiol, a pherthnasoedd a materion teuluol.

Bellach mae gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau dros gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru yn sgil newidiadau Llywodraeth y DU yn y maes defnyddwyr [1]. O 1af Ebrill 2014 mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau i gynrychioli defnyddwyr ynni a'r post.

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn hapus i'n hymateb gael ei gyhoeddi.

---

[1] Ar 1af Ebrill 2013 cafodd y cyfrifoldeb dros gynrychioli defnyddwyr ei drosglwyddo oddi wrth Llais Defnyddwyr i'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth (gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o'r maes defnyddwyr.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

1. **A ydych yn cytuno â'n cynigion i barhau â'n huchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020?**

   Ydw, yn amodol ar y sylwadau isod.

   Sylwadau:

   Ers cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant 2011, mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru wedi gweld nifer cynyddol o gleientiaid yn cael trafferth cynnal safon byw ddigonol. Mae'r sefyllfa hon yn deillio'n bennaf o'r dirywiad economaidd a diwygiadau lles di-rif, sydd wedi dod i rym ers mis Ebrill 2013 i raddau helaeth.

   Datgelodd ein dadansoddiad mewnol ein hunain bod oddeutu 70 y cant i gleientiaid Cyngor ar Bopeth sydd â phlant ar yr aelwyd yn byw islaw'r ffin tlodi.

   Mewn sefyllfa mor anodd, mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru.

   Credwn y byddai'n werthfawr iawn cynnal targed i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Rydym yn cydnabod ei bod yn annhebygol y byddwn yn cyflawni hyn yn y pum mlynedd nesaf, ond credwn ei bod yn bwysig cael targed uchelgeisiol mewn cyfnodau ariannol mor anodd er mwyn cadw ffocws a chyfeiriad ar draws llywodraeth genedlaethol a lleol, ynghyd ag ym mhobman arall. Heb hynny, mae perygl y gallai ymdrechion i drechu tlodi plant leihau neu ddiflannu, yn enwedig o ystyried y toriadau i wariant cyhoeddus.

   Fodd bynnag, gan gydnabod ein bod yn annhebygol o gyrraedd y targed credwn fod gwir angen dechrau cynllunio ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd y tu hwnt i 2020. Dylai hyn ddechrau gydag adolygiad cynhwysfawr o gynnydd hyd yma ym mhob sector a phartner allweddol, nid Llywodraeth Cymru'n unig, i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal, gan gynnwys nodi unrhyw rwystrau a allai fod yn atal cynnydd yn y tymor byr, yn enwedig lle mae'r dasg o sicrhau newid yn nwylo Llywodraeth Cymru. I gyd-fynd a'r adolygiad, dylid llunio cerrig milltir a chanlyniadau clir o'r hyn y gellir ac y dylid ei gyflawni erbyn 2020, ynghyd â chynorthwyo i ddatblygu gweithgareddau ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

2. **A ydych yn cytuno â'n cynnig i barhau â'n tri amcan strategol presennol i drechu tlodi plant?**

   Ydw, i raddau – gweler y sylwadau isod.

   Sylwadau:

   Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno ar y cyfan y dylai Llywodraeth Cymru barhau â'r tri amcan strategol cyfredol ar gyfer trechu tlodi plant i helpu i gynnal cysondeb a ffocws. Fodd bynnag, credwn nad yw pob amcan, yn ei ffurf bresennol, yn adlewyrchu

natur newidiol tlodi/tlodi plant yng Nghymru, yn arbennig y nifer cynyddol o aelwydydd yng Nghymru lle mae rhywun yn gweithio ond yn dal i fyw mewn tlodi. Er bod y strategaeth ddiwygiedig yn cydnabod hyn, gyda thlodi mewn gwaith yn un o'r pum maes blaenoriaeth, credwn y dylid cydnabod hyn yn fwy eglur o fewn geiriad yr amcanion strategol.

Credwn hefyd y dylid cael amcan ychwanegol sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd cynyddu incwm aelwydydd fel llwybr i ddianc rhag tlodi. Rydym yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i annog cyflogwyr ar draws pob sector i ystyried bod yn gyflogwyr Cyflog Byw, ond credwn fodd bynnag, er bod hyn yn bwysig, nad cyflogaeth yw'r unig ffordd o hybu incwm aelwydydd. Gall gweithgarwch arall fel cefnogi pobl i hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, wneud gwahaniaeth sylweddol hefyd. Mae'r prosiect 'Gwell Cyngor Gwell Bywydau' (y cyfeirir ato yn y strategaeth), wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Cyngor ar Bopeth Cymru ers Ionawr 2012 (sy'n deillio o Gwell Cyngor Gwell Iechyd yn 2001). Rhaglen uchafu incwm yw'r prosiect hwn sydd â'r nod o leihau tlodi ac sydd ar waith ym mhob ardal awdurdod lleol. Rhwng mis Ebrill a Mis Medi 2014, roedd cynghorwyr Gwell Cyngor Gwell Bywydau wedi helpu bron i 9,500 o gleientiaid ledled Cymru, gan nodi cyfanswm buddion/enillion ariannol drwy'r prosiect yn ystod y cyfnod o bron i £8.9 miliwn.

Mae cefnogi teuluoedd â phlant anabl i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo yn un o'r gwasanaethau allweddol a ddarperir drwy Gwell Cyngor Gwell Bywydau, gyda chanolfannau'n gweithio mewn partneriaeth, ac yn derbyn atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion arbennig ac elusennau plant. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos yr effaith enfawr y gall gwaith fel hyn ei chael ar fywydau pobl:

*Mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Plant Integredig yn y sir ac yn ddiweddar cyfeiriwyd menyw ifanc â dau o blant atynt sydd â diagnosis o anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Roedd y teulu yn dioddef caledi ariannol ac nid oedd llawer o weithgareddau ar gael i'r plant.*

*Helpodd y Ganolfan y cleient i gwblhau dwy ffurflen Lwfans Byw i'r Anabl a chafodd y ddau blentyn y budd-dal a chafodd y cleient lwfans gofalwr hefyd. Cynyddodd incwm y teulu £400.00 yr wythnos. Darparodd y Gronfa Wyliau dalebau gwyliau ar gyfer y gwyliau teuluol cyntaf iddynt allu ei fforddio hefyd. Roeddynt hefyd yn gallu defnyddio cyfleusterau chwaraeon anabledd a oedd wedi'u cynllunio arbennig ar gyfer plant ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.*

*O ganlyniad, llwyddwyd i godi'r teulu uwchlaw'r ffin tlodi ac maent yn gwneud yn dda iawn bellach. Mewn adborth dywed y teulu bod y gwasanaeth yn "werth ei bwysau mewn aur".*

Credwn hefyd y dylai mesurau ataliol eraill, fel gwella gallu ariannol plant, pobl ifanc a'u rheini/gofalwyr fod yn elfen allweddol o bedwerydd 'amcan incwm'.

Mae addysg ariannol yn dod yn rhan sylweddol o waith y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i wneud drwy ein Rhaglen Sgiliau Ariannol Bywyd a sefydlwyd yn 2002 mewn partneriaeth â Prudential. Eleni (2014/15), mae 85 y cant o ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru (17 canolfan) yn darparu gwasanaethau gallu ariannol yn eu cymunedau lleol. Gan Cyngor ar Bopeth Cymru y

mae'r prif gontract ar gyfer darparu Prosiect Cynghori Ariannol wyneb yn wyneb yng Nghymru hefyd, a gyllidir gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Mae gwerth gwella gallu ariannol pobl wedi'i brofi yn ystod gwerthusiadau annibynnol o'r mentrau a gynhelir gan y ganolfan. Yn ystod y degawd diwethaf, mae gwerthusiadau wedi dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi cynorthwyo'n gyson i wella hyder a sgiliau pobl o ran rheoli eu harian. Nodwyd ystod eang o 'fanteision cymdeithasol' hefyd fel lefelau is o straen, gallu i gynllunio ar gyfer cyflogaeth, gallu i gynnal tenantiaeth neu forgais, mwy o hyder fel defnyddiwr a'r gallu i gefnogi ffrindiau a theulu. Mae buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol yn arwain at enillion ariannol gwirioneddol hefyd, nid yn unig i aelwydydd unigol, ond i'r economi leol gydag effaith lluosydd y galw cynyddol am nwyddau a gwasanaethau[2].

Er ein bod yn cydnabod mai'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yw'r prif fecanwaith ar gyfer cyflawni'r amcanion strategol a gynigir yn y Strategaeth ddiwygiedig, byddem yn awgrymu y dylid ymgorffori manylion pellach am sut mae'r ddau'n cyd-fynd i brif gorff y strategaeth. Mae Atodiad 1 yn darparu crynodeb defnyddiol a manwl iawn. Felly, byddem yn awgrymu bod manylder o'r fath, yn enwedig y siart llif, yn cael ei gynnwys yn y brif ddogfen i helpu i egluro'r cysylltiadau rhwng y ddau - sy'n gallu bod yn ddryslyd i'r rhai sy'n gweithio y tu allan i Lywodraeth Cymru.

## 3. A yw'r polisïau a'r rhaglenni sy'n sail i'n hamcanion strategol yn briodol?

Ydynt, yn amodol ar y sylwadau isod.

Sylwadau:

Mae'r manylion a ddarperir yn y ddau Atodiad yn helpu i ddangos yr ystod eang o bolisïau a rhaglenni gan Lywodraeth Cymru sy'n ategu'r amcanion yn y Strategaeth. Mae hefyd yn pwysleisio hyd a lled y cyfrifoldebau sydd gan adrannau ar draws Llywodraeth Cymru o ran trechu tlodi plant yng Nghymru.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu bod rhywfaint o fudd o nodi polisïau a rhaglenni allweddol yn y ffordd hon, ond bod perygl hefyd y gellid hepgor strategaethau/rhaglenni penodol. Nid yw ychwaith yn darparu ar gyfer cynnwys strategaethau, mentrau neu ddatblygiadau deddfwriaethol newydd yn ystod y cyfnod tair blynedd a ragdybir ar gyfer y Strategaeth ddiwygiedig.

Ond eto, credwn hefyd y gall y nifer sylweddol o strategaethau a rhaglenni sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru arwain at gymhlethdod a dryswch ychwanegol, yn enwedig ymysg sefydliadau/asiantaethau allanol.

Felly, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dulliau o ran datblygu polisi ar sail yr agenda trechu tlodi i weld, os yw'n bosibl, lle gellir cyfuno strategaethau/rhaglenni cyfredol ac ymgorffori unrhyw fentrau newydd i raglenni

[2] 'From small change to lasting change: Financial Skills for Life 2002-2012', Cyngor ar Bopeth a Prudential (Mai 2012)

cyfredol. Byddai rhesymoli fel hyn yn cynorthwyo i gydlynu, codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o weithgarwch parhaus.

**4. A ydych yn fodlon ar y dulliau cydweithredol rydym am eu defnyddio i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru?**

Ydw.

Sylwadau:

Caiff y dulliau cydweithredol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i drechu tlodi plant yng Nghymru gefnogaeth gref gan Cyngor ar Bopeth Cymru. Mae maint yr her, yn enwedig o ystyried y sefyllfa economaidd sydd ohoni ac effaith gynyddol diwygio lles yn golygu bod mwy o angen am ddulliau amlasiantaeth nag erioed.

Mae rheoli a chydgysylltu'n effeithiol sut y gall gwahanol asiantaethau yng Nghymru a phartneriaid allweddol yn y DU (e.e. yr Adran Gwaith a Phensiynau) gydweithio'n well i helpu pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn hollbwysig a chredwn fod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen.

Mae gan ddarparwyr cyngor a sefydliadau trydydd sector eraill rôl hollbwysig. Mae gwasanaethau cynghori a gallu yn llwyddo i wneud mwy na lleddfu effeithiau tlodi ar unigolion a theuluoedd. Gall cyngor amserol o ansawdd uchel helpu pobl hefyd i gadw cyflogaeth â thâl a brwydro yn erbyn gwahaniaethu, tra bod mesurau ataliol (fel y crybwyllir yng Nghwestiwn 2) fel gwasanaethau uchafu incwm a meithrin gallu ariannol yn helpu pobl i hybu eu hincwm ac ennill sgiliau cyllidebu a rheoli arian ymysg pethau eraill, ynghyd â sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol ehangach.

Fel elusen gynghori fwyaf y DU, cynorthwyodd Cyngor ar Bopeth fwy na 134,000 o bobl ledled Cymru yn 2013/14 ac mae'r galw am ein gwasanaethau'n cynyddu. Amcangyfrifwn fod oddeutu 89,000 o gleientiaid a gafodd eu cynorthwyo'r llynedd yng Nghymru yn byw islaw'r ffin tlodi. Rydym hefyd yn bartner darparu gwasanaethau allweddol ar gyfer nifer o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o leihau tlodi drwy helpu pobl i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt, gan gynnwys Gwell Cyngor Gwell Bywydau, prosiect Canlyniadau a Rennir Cymunedau yn Gyntaf (sy'n darparu gweithgareddau allgymorth yn y gymuned ar gyfer mathau penodol o gyngor, gan gynnwys dyledion, budd-daliadau nawdd a darpariaeth gallu ariannol), ynghyd â menter ar y cyd â Shelter Cymru i ddarparu cyngor arbenigol ar ddyledion, budd-daliadau a thai i helpu i leddfu effaith diwygio lles. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth barhaus Llywodraeth Cymru i bwysigrwydd y gwasanaethau hyn.

Fodd bynnag, teimlwn fod diffyg manylu yn y Strategaeth mewn perthynas â rôl y sector preifat, o ran creu swyddi a'u rôl wrth fynd i'r afael â'r 'premiwm tlodi' - lle mae pobl ar incwm is yn talu mwy yn gyson am lawer o nwyddau a gwasanaethau bob dydd, gan gynnwys cynhyrchion ariannol, ynni a chyfleustodau eraill.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi gweithio gyda'r Sefydliad Safonau Prydeinig i lunio safon (BS18477) i ddangos i gwmnïau sut gallant ymddwyn mewn ffordd deg a chynhwysol a sicrhau bod gwasanaethau hollbwysig ar gael ac yn addas i bob defnyddiwr. Mae

rhagor o wybodaeth yn ein hadroddiad Tackling consumer vulnerability (Gorffennaf 2014). Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith Cyngor ar Bopeth yn y maes hwn.

Er bod Cyngor ar Bopeth Cymru yn cytuno’n llwyr â’r dull hawliau plant o drechu tlodi plant, credwn fodd bynnag fod diffyg manylion am sut bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn y Strategaeth ddiwygiedig yn ei ffurf bresennol. Ni chyfeirir rhyw lawer ar hyn o bryd at hawliau plant a phobl ifanc yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rydym yn croesawu’r ymrwymiad yn y Strategaeth i gynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni i drechu tlodi plant ac yn nodi bod llawer o’r gwaith hwn ar y gweill drwy’r pum Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd a ddyfarnwyd yn ystod haf 2014. Fodd bynnag, credwn y byddai’n ddefnyddiol cynnwys mwy o fanylion o ran natur y gweithgarwch hwn yn y Strategaeth.

Rydym hefyd yn croesawu’r ymrwymiad i ddatblygu dull integredig o asesu effaith wrth ystyried tlodi a chydraddoldeb gyda’i gilydd. Mae adroddiad Cyngor ar Bopeth Cymru, Un dydd ar y tro (Gorffennaf 2014), sy’n archwilio effaith gronnol diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru, yn tynnu sylw at sut mae pobl sy’n byw ag anableddau/cyflyrau iechyd hirdymor wedi’u heffeithio’n anghyfartal gan newidiadau i fudd-daliadau hyd yma. O ganlyniad i ostyngiad mewn incwm, mae llawer o bobl yn cael trafferth cynnal safon byw ddigonol ac yn gorfod gwneud heb hanfodion sylfaenol fel bwyd, gwres digonol yn eu cartref a dillad er mwyn iddynt allu parhau i dalu taliadau rhent a fforddio biliau hanfodol eraill yr aelwyd. Mae rhieni’n aberthu eu hunain yn aml i fwydo’u plant a cheisio cynnal ymdeimlad o normalrwydd.

Hefyd, y llynedd roedd gan oddeutu un o bob pedwar o gleientiaid Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a oedd yn gofyn am gymorth ar ôl sancsiynau ar eu Lwfans Ceisio Gwaith blant dibynnol (23 y cant) ac mae cyfran debyg (24 y cant) yn disgrifio eu hunain yn anabl neu â chyflwr iechyd hirdymor.

Felly, credwn ei bod yn hanfodol i fonitro’n ofalus effaith tlodi, a ffactorau sy’n cyfrannu at dlodi, ar y rhai â nodweddion gwarchodedig er mwyn gallu targedu gweithgarwch i liniaru’r effeithiau’n effeithiol. Rydym yn croesawu’r gydnabyddiaeth o hyn yn y Strategaeth, yn enwedig o ran lliniaru effaith diwygio lles.

**5. A ydych yn cytuno â'n cynigion ar gyfer y camau nesaf?**

Ydw, yn amodol ar y sylwadau isod.

Sylwadau:

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru’n cefnogi’r pum maes blaenoriaeth a nodir yn y Strategaeth ar y cyfan - tlodi bwyd; mynediad i ofal plant fforddiadwy; tlodi mewn gwaith; camau i liniaru effaith y diwygiadau lles; a thai ac adfywio - ynghyd â’r camau arfaethedig ar gyfer mynd i’r afael â’r materion hyn. Mae’r rhain yn feysydd lle mae pobl yn gofyn yn gyson am gymorth gan y canolfannau.

Fodd bynnag, mae gennym nifer o sylwadau penodol i'w gwneud ynghylch rhai meysydd blaenoriaeth.

*Tlodi bwyd/camau i liniaru effaith y diwygiadau lles*

Rydym yn cydnabod y cyfeiriad yn y Strategaeth am yr angen i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith y gall diwygiadau lles ei chael ar gymhwysedd i dderbyn eu budd-daliadau pasbort, gan gynnwys Prydau Ysgol am Ddim. Bydd hyn yn dod yn gynyddol bwysig wrth gyflwyno credyd cynhwysol yn raddol ledled Cymru yn y misoedd nesaf ac wrth i fudd-daliadau mewn ac allan o waith cyfredol ddod yn rhan o'r credyd cynhwysol. Ers mis Medi 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn cymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am ddim i blant mewn teuluoedd lle mae rhiant yn derbyn y credyd cynhwysol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd hyn yn cael ei adolygu a gall gael ei newid wrth i'r budd-dal newydd gael ei gyflwyno'n raddol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau diweddar i'r ddarpariaeth hon a byddem yn croesawu eglurder ar gymhwysedd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn y dyfodol yn y Strategaeth ddiwygiedig, yn enwedig o ystyried bod diffyg cyfatebiaeth ar hyn o bryd rhwng budd-daliadau cymhwyso cyfredol a'r rhai a fydd yn cael eu cynnwys yn y credyd cynhwysol, e.e. credyd treth gwaith. Byddem yn cymell Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i'r holl blant mewn aelwydydd sy'n derbyn credyd cynhwysol.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i dynnu sylw at enghraifft o achos lle mae sefydliadau yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n arloesol i fynd i'r afael ag effaith diwygio lles a lle mae pobl yn cael trafferth talu am fwyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae prosiect Making welfare work locally Cyngor ar Bopeth wedi bod yn 'arddangos' enghreifftiau o ymarfer da gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru a Lloegr mewn perthynas â'r gwaith y maent yn ei wneud i helpu eu preswylwyr/tenantiaid i reoli newidiadau i fudd-daliadau yn awr ac yn y dyfodol. Enillodd Cymdeithas Tai Rhondda ei lle ar y rhestr fer fel un o'r enghreifftiau mwy dyfeisgar o arfer da am y gwaith y mae'n ei wneud gyda Fare Share Cymru i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent. Mae'r prosiect yn darparu bocsys bwyd am gyfraniad sy'n llawer llai na'u gwerth ac yn neilltuo'r arian tuag ar gyfer ôl-ddyledion rhent y tenantiaid a chynnal y cynllun.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl hefyd wrth nodi a rhannu arfer da gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru yn eu gwaith i helpu pobl sydd wedi'u heffeithio gan y newidiadau diweddar a'r newidiadau sydd ar y gweill i fudd-daliadau Dylai hyn gynnwys camau i fynd i'r afael ag arfer gwael os yn berthnasol.

*Gofal plant*

Rydym yn cytuno bod mynediad i ofal plant fforddiadwy yn hollbwysig i helpu pobl i gadw neu ddod o hyd i waith neu hyfforddiant ac yn croesawu'r mesurau a gynigir i wella hyn yn y Strategaeth.

Datgelodd adroddiad Pop goes the payslip (Ebrill 2014) Cyngor ar Bopeth y byddai cymorth tuag at gostau gofal plant wedi gostwng o uchafswm o 95 y cant i 70 y cant yn unig o dan gynllun gwreiddiol y credyd cynhwysol, a byddai hynny'n golygu na

fyddai'r rhan fwyaf o rieni ar gyflogau isel gyda phlant ifanc ar eu hennill yn sgil gweithio. Yn dilyn ein hymgyrch, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i gynyddu'r cymorth tuag at gostau gofal plant dan y credyd cynhwysol i 85 y cant. Er ein bod yn croesawu hyn yn fawr, credwn mai'r cam cyntaf yn unig yw hwn tuag at wella cynllun a darpariaeth y credyd cynhwysol. Rydym yn parhau i ymgyrchu dros gynyddu'r cymhorthdal tuag at gostau gofal plant i 90 y cant.

Credwn hefyd y dylid ehangu'r maes blaenoriaeth hwn i gynnwys cymorth i rieni, gan ehangu ac adeiladu ar waith Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Byddai hyn yn darparu cyfle i fynd i'r afael â'r effaith y gall tlodi ei chael ar allu person i fod yn rhiant. Gallai gynnwys gwella cyfleoedd addysg ariannol ar gyfer rhieni a gofalwyr, fel sgiliau cyllidebu a rheoli arian, i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd mewn ysgolion, ynghyd â gwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl.

*Tlodi gwledig/tlodi mewn gwaith*

Mae Cyngor ar Bopeth wedi gweld o brofiad bod pobl sy'n byw mewn tlodi yn profi'r un math o broblemau, lle bynnag y maent yn byw, yn benodol incwm isel, dyledion, diweithdra, diffyg tai addas a thalu mwy am lawer o nwyddau a gwasanaethau bob dydd (fel y cyfeirir ato yng nghwestiwn 4).

Er bod pobl yng nghefn gwlad Cymru, ar gyfartaledd, yn well eu byd na phobl yng ngweddill Cymru, mae ardaloedd o amddifadedd sylweddol yn parhau mewn llawer o gymunedau cefn gwlad nad ydynt yn gallu manteisio ar y cymorth ariannol sydd ar gael drwy raglenni Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o wella'r cymorth ar gyfer teuluoedd incwm isel fel y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg ac Esgyn. Rydym yn bwriadu tynnu sylw at nifer o'n pryderon yn hyn o beth yn ein cyflwyniad i ymchwiliad tlodi Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru - gweler y sylwadau ar ddiwedd yr ymateb hwn hefyd.

Mae effaith byw mewn tlodi'n waeth mewn ardaloedd gwledig oherwydd ffactorau amrywiol, gan gynnwys mynediad ffisegol gwael i wasanaethau, costau byw uwch, cyflogau is ar y cyfan a lefelau uwch o waith tymhorol a rhan-amser. Mae'r lefelau uwch o waith tymhorol a rhan-amser yn golygu bod lefelau cynyddol o dlodi mewn gwaith mewn ardaloedd gwledig.

Er bod y mater o dlodi gwledig yn cael ei grybwyll yn Adroddiad Blynyddol 2014 y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, credwn fod diffyg manylion penodol ar ba ymyriadau polisi a rhaglenni sydd ar y gweill neu ar waith i helpu i drechu tlodi plant mewn ardaloedd gwledig yn y Strategaeth ddiwygiedig. Felly, credwn y dylid nodi tlodi gwledig naill ai fel maes blaenoriaeth ar wahân, neu dylid cynnwys gweithredu mewn perthynas â thlodi mewn gwaith mewn categori ehangach o dlodi gwledig.

*Tai ac adfywio*

Fel y nodir yn y Strategaeth, mae cael mynediad i dai fforddiadwy o ansawdd da yn hollbwysig o ran cynorthwyo pobl ifanc a theuluoedd incwm isel i sicrhau gwell canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r diwygiadau lles yn ei gwneud yn anodd iawn i lawer o bobl yng Nghymru dalu eu costau tai.

Yn ystod y naw mis diwethaf, mae canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru wedi helpu dros 3,400 o gleientiaid sy'n cael trafferth talu eu rhent. Ôl-ddyledion rhent yw bron i 5 y cant o'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â dyledion bellach – sy'n golygu ei fod yn 6ed ymhlith y meysydd dyledion mwyaf. Tynnwyd sylw at sefyllfa dai fregus llawer o bobl mewn ymchwil Cymru gyfan hefyd a gomisiynwyd ar y cyd rhwng Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru fis Gorffennaf y llynedd[3]. Datgelodd yr ymchwil hon bod bron i chwech o bob deg (57%) aelwyd gyda phlant sy'n talu rhent neu forgais yn cael trafferthion gyda'u taliadau, gyda 23 y cant yn cael trafferthion yn gyson. Ond achos pryder mwy yw ei bod yn ymddangos nad oes gan lawer o aelwydydd unrhyw rwyd diogelwch ariannol. Mae dros chwarter y rhai â phlant (26 y cant) sydd mewn gwaith ar hyn o bryd yn dweud na fyddent yn gallu fforddio talu eu rhent neu forgais o gwbl pe baent yn colli eu swyddi. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru'n cadw llygad ar y sefyllfa hon er mwyn sicrhau bod y systemau cymorth angenrheidiol ar waith pan fydd pobl eu hangen.

Er y cyfeirir at y diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru yn y Strategaeth ddiwygiedig, ymddengys bod llawer o'r ffocws ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â rôl landlordiaid cymdeithasol heb gyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at y sector rhentu preifat.

Mae dibyniaeth gynyddol ar y sector rhentu preifat yng Nghymru, gyda nifer y bobl sy'n byw yn y sector yn dyblu o 7 i 14 y cant yn ystod y degawd diwethaf. Felly, roeddem yn croesawu camau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r twf hwn yn y farchnad dai drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 gyda thrwyddedu, hyfforddiant a chofrestru gorfodol ar gyfer landlordiaid y sector rhentu preifat.

Rydym yn gyson yn gweld dwywaith cymaint o gleientiaid yn wynebu problemau gyda'u tai rhentu preifat na chleientiaid sy'n byw yn y sector tai cymdeithasol, er bod tua'r un faint o bobl yn byw yn y naill sector a'r llall yng Nghymru bellach[4]. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, materion yn ymwneud â'r sector rhentu preifat yw bron i draean holl broblemau tai ein cleientiaid, sy'n golygu mai dyma'r maes cysylltiedig â thai mwyaf y mae pobl yn gofyn am ein cymorth yn ei gylch. Ers mis Ebrill 2014, rydym wedi gweld bron i 3,000 o gleientiaid yn gofyn am gymorth gyda materion yn ymwneud â'r sector rhentu preifat, o gymharu ag oddeutu 1,700 o'r sector rhentu cymdeithasol. Y 3 prif fater [5] yr oedd tenantiaid y sector rhentu preifat yn gofyn am gymorth yn ei gylch oedd: atgyweiriadau a chynnal a chadw; rhent a thaliadau eraill a diogelu blaendal tenantiaeth.

Felly, byddem yn rhoi croeso cynnes i fesurau a fyddai'n sicrhau bod landlordiaid y sector rhentu preifat yn cael eu hysbysu am y datrysiadau cymorth tenantiaeth priodol ac yn gallu manteisio arnynt, ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyngor ar arian a dyledion amrywiol sydd ar gael i'w tenantiaid, a'u hunain. Byddwn yn galw am hyn yn ein hymateb i'r ymgynghoriad presennol ar reoleiddio Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

---

[3] Cynhaliwyd yr arolwg hwn ar-lein gan YouGov Ccc. Mae ffigurau wedi'u pwysoli ac yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion yng Nghymru. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 23 – 26 Gorffennaf 2014, a maint y sampl gyfan oedd 1003 o oedolion.

[4] Amcangyfrifon StatsCymru: Mae stoc tai Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer 2012-13 yn 16% o'r farchnad. Amcangyfrifir fod y Sector Rhentu Preifat yn 14%.

[5] Ac eithrio'r rhai sydd wedi'u categoreiddio neu eu dosbarthu fel 'eraill'.

Yn yr un modd, mae'r Bil Rhentu Cartrefi arfaethedig yn cynnig helpu egluro'r berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid; hyrwyddo dealltwriaeth a sicrhau ymarfer cyson, a chroesewir hynny. Yn benodol, rydym yn cymeradwyo'r egwyddor a'r awgrym a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru y bydd y Bil yn dechrau mynd i'r afael â throi allan er mwyn dial. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu ei bod yn hollbwysig bod y Bil yn cynnwys amddiffyniad cadarn rhag troi allan er mwyn dial yn y gyfraith er mwyn mynd i'r afael â materion o ddiffyg atgyweirio a chynnal a chadw, sef y ddau brif fater sy'n poeni cleientiaid yn gyson yn ymddangos yn gyson yn y sector rhentu preifat. Credwn y bydd mynd i'r afael â throi allan er mwyn dial yn helpu i wella safon eiddo yn y sector rhentu preifat drwy sicrhau bod landlordiaid yn mynd i'r afael â phroblemau diffyg atgyweirio a drwy roi llais cryfach a mwy hyderus i denantiaid allu datrys problemau yn eu tai.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod yr effaith y gall byw mewn cartref oer a thamp ei chael ar fywyd plant, gan effeithio'n aml ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â'u cyrhaeddiad addysgol, eu gallu i gymdeithasu a'u lles yn gyffredinol. Dengys y dystiolaeth a gasglodd Cyngor ar Bopeth Cymru i asesu effaith newidiadau diweddar i fudd-daliadau yng Nghymru (a amlygwyd yn ein hadroddiad 'Un dydd ar y tro' a grybwyllwyd yn flaenorol), sut mae llawer o deuluoedd incwm isel wedi cwtogi ar eu defnydd o danwydd i ostwng eu biliau ynni. Mae hyn wedi cynnwys mynd heb wres a dŵr poeth, gwresogi un ystafell yn unig neu roi'r gwres ymlaen pan fo'r plant gartref yn unig.

Yn ein tystiolaeth ddiweddar i ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynlluniau effeithlonrwydd ynni tlodi tanwydd yng Nghymru, mynegodd Cyngor ar Bopeth Cymru ein pryderon am y defnydd parhaus o ddata *Byw yng Nghymru* 2008 fel y llinell sylfaen ar gyfer rhagamcanion tlodi tanwydd yng Nghymru. Credwn fod yna berygl o roi darlun wedi dyddio'n gynyddol o'r sefyllfa gan gyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ymateb i unrhyw dueddiadau newydd neu dargedu rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn effeithiol. Rydym yn parhau i alw am arolwg aelwydydd newydd tebyg i'r Arolygon Tai/Cyflwr Tai a gynhaliwyd yn Lloegr a'r Alban, i sicrhau data mwy cadarn a chywir ar gyfer aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru. Dylai hyn alluogi ffordd fwy effeithiol o nodi a monitro aelwydydd lle mae plant yn byw mewn tlodi tanwydd hefyd.

**6. A ydych yn cytuno â'r dangosyddion rydym yn bwriadu eu defnyddio i fesur cynnydd?**

Ydw, yn amodol ar y sylwadau isod

Sylwadau:

Nid yw Cyngor ar Bopeth Cymru yn anghytuno ag unrhyw un o'r dangosyddion arfaethedig sydd wedi'u rhestru yn y Strategaeth. Fodd bynnag, credwn fod yna rai dangosyddion neu fesuriadau pwysig ar goll.

Ar y cyfan mae'r rhain yn adlewyrchu meysydd lle y credwn fod angen rhoi mwy o bwyslais yn y Strategaeth, fel cynyddu incwm teuluoedd (drwy uchafu incwm/addysg ariannol); tlodi gwledig a gwella safonau tai teuluoedd incwm isel, yn enwedig y rhai sy'n byw yn y sector rhentu preifat. Gallai'r rhain gynnwys:

- mesur o ddigonolrwydd incwm aelwydydd i sicrhau safon byw ddigonol, tebyg i Safon Incwm Gofynnol Sefydliad Joseph Rowntree;
- mesur o les ariannol ar gyfer aelwydydd sydd â phlant, gan gynnwys i ba raddau y maent yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth/eu bod yn gallu rheoli eu harian yn well;
- dadansoddiad o incwm/enillion ariannol ar ôl derbyn cyngor (lle'n bosibl);
- dadansoddiad llawn o dlodi gwledig, gan gynnwys lleoliad a nodweddion yr aelwydydd tlotaf i wella dealltwriaeth o dlodi plant mewn ardaloedd gwledig;
- asesiad o aelwydydd â phlant sydd wedi'u harbed rhag tlodi tanwydd gan gynlluniau Llywodraeth Cymru, fel Nest ac Arbed.

Rydym yn nodi lle mae data ar gael ein bod yn bwriadu dadgyfuno'r dangosyddion arfaethedig yn ôl nodweddion gwarchodedig. Byddem yn cefnogi dull o'r fath yn gryf ac yn annog casglu data o'r fath lle'n bosibl.

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Nodwch yma:

Fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 5, yn ein cyflwyniad i ymchwiliad tlodi y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, bydd Cyngor ar Bopeth Cymru yn tynnu sylw at ein pryder cynyddol ynglŷn â'r ffordd y mae cyllid ar gyfer nifer o raglenni/mentrau gwrthdlodi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddosbarthu a'n bod yn credu bod pobl sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig dan anfantais neilltuol oherwydd y dull presennol.

Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y rhaglenni allweddol, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a'r Rhaglen Esgyn yn mabwysiadu dull seiliedig ar ardaloedd, yn gyffredinol drwy dargedu ardaloedd bach sydd â'r crynodiadau uchaf o amddifadedd lluosog.

Rydym yn cydnabod bod nifer o fanteision i ddulliau seiliedig ar ardaloedd o drechu tlodi:-

- mae targedu ardaloedd penodol gyda lefelau uchel amlwg o amddifadedd yn golygu bod mwy o gyfle o gyrraedd y bobl sydd â'r angen mwyaf;
- mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny'n gallu elwa ar ystod eang o weithgarwch a chymorth;
- mae'n helpu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol ymhlith pobl nad ydynt yn ymwybodol o reidrwydd o'r help sydd ar gael neu'n amharod i ofyn am help.

Fodd bynnag, un o brif anfanteision unrhyw fenter gwrthdlodi sy'n seiliedig ar ardaloedd yn bennaf yw bod pobl mewn angen sy'n byw y tu allan i ardaloedd a ddiffinnir ar gyfer gweithredu yn debygol o gael eu heithrio o fentrau o'r fath. Mae hyn yn berthnasol iawn yn achos cynlluniau Llywodraeth Cymru i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gyda phoblogaethau mwy gwasgaredig.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mabwysiadu dull ‘seiliedig ar bobl’ yn unig o drechu tlodi, h.y. targedu grwpiau penodol o bobl, yn peryglu symud y broblem o gyrraedd yr holl rai hynny sydd mewn angen.

Mae adroddiad OCSI yn 2012, a oedd yn archwilio amddifadedd gwledig a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn cefnogi ein barn ar gyfyngiadau dulliau sy’n seiliedig ar ardaloedd[6]. Nododd yr adroddiad bod dulliau seiliedig ar ardaloedd yn llai priodol wrth asesu amddifadedd gwledig gwasgaredig ac er efallai bod mynegeion amddifadedd fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn briodol fel procsi ar gyfer ‘angen’, dylid defnyddio mesurau mwy uniongyrchol o anghenion grwpiau cleientiaid, fel incwm, lle bynnag bosibl ac y dylai fformiwlâu cyllid adlewyrchu hyn.

Mae’r adroddiad yn nodi bod naw awdurdod lleol gwledig yng Nghymru yn cynnwys 29 y cant o bobl Cymru sy’n derbyn incwm neu fudd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth, ond dim ond 13 y cant o ardaloedd yn y cwintel mwyaf difreintiedig. Yna, mae’n mynd ymlaen i ddangos pe bai dangosyddion incwm a budd-daliadau cysylltiedig â chyflogaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael eu defnyddio i ddyrannu adnoddau ar gyfer rhaglen gwrthdlodi benodol, byddai awdurdodau lleol gwledig yn derbyn dwywaith cymaint o gyllid ag y maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu na ddylid ystyried rhaglenni seiliedig ar ardaloedd neu seiliedig ar bobl yn unig wrth ddyrannu cyllid ar gyfer trechu tlodi.

Felly, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull cyffredinol o ddyrannu adnoddau ar gyfer trechu tlodi ac ystyried mabwysiadu cyfuniad o ddulliau seiliedig ar amddifadedd a rhai economaidd gymdeithasol i sicrhau bod yr holl rai sydd angen cymorth yn gallu cael gafael ar gymorth, gyda mwy o bwyslais ar ffactorau sy’n gysylltiedig ag incwm.

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Lindsey Kearton
Swyddog Polisi
Cyngor ar Bopeth Cymru
Llinell uniongyrchol: 03000 231 392
E-bost: Lindsey.Kearton@citizensadvice.org.uk

[6] Oxford Consultants for Social Inclusion (OCSI): Getting the measure of rural deprivation in Wales, comisiynwyd gan Uned Data Llywodraeth Leol, Cymru ar ran Fforwm Gwledig CLlLC, Mai 2012, http://www.ocsi.co.uk/news/wp-content/uploads/OCSI-GettingMeasureRuralDeprivationWales.pdf